

Cystadleuaeth 79.

Stori Fer

Buddugol: Helygen sef Esyllt Edwards

Ail: Afallon sef Eryl Samuel

Trydydd: Eiddew sef Tamsin Davies

Paradwys

“Yndw dwi’n clywed, ond nachdw, dwi ddim yn gwrando.”

Doedd Rhian ddim yn disgwyl ymateb, ond roedd rhywbeth digon braf dweud wrth y larwm i dawelu. Doedd y larwm ddim yn gwrando chwaith. A dweud y gwir, roedd o rhywsut yn ateb yn ôl gan ei herio trwy ddal ymlaen i ganu. Ymestynnodd Rhian am ei ffôn bach gan bwyso botwm i roi saib ar y larwm am ychydig. Saib o naw munud i fod yn fanwl.

Pan ganodd y larwm drachefn, roedd hi’n teimlo yn waeth na chynt. Dydi cysgu llwynog da i ddim. Roedd Rhian wedi meddwl codi hefo sŵn y larwm cyntaf y bore hwnnw i gael mynd am dro cyn gwaith. Wel, meddwl am y peth noson cynt wnaeth hi, ond mae meddwl rhywun yn gallu newid dros nos yn tydi.

Doedd Rhian ddim yn gwybod os oedd gwaith pobl eraill yr un fath, ond roedd gan rai o’i chydweithiwr y gallu i greu rhyw hen gystadleuaeth ynglŷn a phwy sydd wedi cyflawni hyn a llall cyn cyrraedd y swyddfa yn y bore.

Beca a’i dosbarth combat. Ynden, de ni’n gwybod achos mae llun ar instagram a facebook ac mae rhywun angen ychydig bach mwy o stwff lladd chwys a phersawr cyn dod i’r gwaith. Hen beth anodd ydi hynny mewn swyddfa ynte.

Mali sy’n mynd a’r bychan am dro rownd y bloc fel mae’n gwawrio. De ni’n gwybod hynny hefyd, achos mae na lun fel cofnod ar y storïau cyfryngau cymdeithasol. Llun braidd rhy aml o’r daith foreol yn nhyb Rhian, fel petai Mali yn pigo cydwybod rhywun.

I Rhian wedyn, mae codi o’r gwely yn teimlo fel llwyddiant.

Un bore Mawrth. Wel roedd hi’n meddwl mae dydd Mawrth oedd hi y bore hwnnw, fe ddaliodd gip braidd rhy hir ohoni ei hun yn drych y cyntedd wrth adael y tŷ. Roedd ei gwallt fel shredded wheat wedi ei chwalu i osod sylfaen i wyau bach siocled mewn nyth adeg y Pasg. Doedd dim angen colur llygaid i wneud rhyw olwg o ddirgelwch ar ei hwyneb. Na, roedd cysgod y bagiau o dan ei llygaid hefo tinc te wedi stiwiwio rhy hir yn y tebot. Roedd ei hwyneb fel rhyw fap, yn dangos henebion fan hyn a chyfuchliniau fan draw. Roedd yn dangos ei bod hi Rhian wedi gweld pethau dros y blynyddoedd. Gweld digon, na gweld gormod o e-byst corfforaethol, roedd hi’n siŵr o hynny.

“Ta ta Dot” gwaeddodd ar y gath wrth roi ei hesgidiau amdani. Ond cafodd rhyw wyneb tin gan honno hyd yn oed y bore hwnnw, fel petai hi’n trio dweud wrth Rhian “ti’n gadael tŷ yn edrych fel yne!”

“Mae hi’n ddigon hawdd i chdi Dot bach” meddai Rhian wrthi gan droi hanner pen fel petai yn rhoi rhyw wers fechan i’r gath “dwyt ti’n cael cysgu am bymtheg awr bob dydd. Fuaswn i hefo sglein fatha chdithe petawn ni cael cymaint a hynny o gwsg”

Tarodd Rhian gip sydyn arall arni ei hun yn y drych. Roedd ei dillad yn dechnegol lan, ond yn dangos peth empathi tuag at ei chroen gyda eu gwawr grebachlyd. Na doedd gwisg heddiw, fel pob diwrnod a dweud y gwir, heb weld siw na miw o wres fflat smwddio cyn i Rhian gamu iddynt.

Bachodd ei bag gwaith oddi ar y fainc wrth y drws, cyn gadael y tŷ.

Roedd yn hoffi cyrraedd y swyddfa yn brydlon i allu paratoi yn feddyliol i allu delio hefo rhai o'r cymeriadau diddorol yn y lle. Fel arfer, byddai Rhian yn cyrraedd y swyddfa gyda yr un lefel o egni ac y byddai yn ei roi i'r ddefod o lanhau yr ystafell ymolchi. Dim llawer o awydd dechrau, ond eto yn ymwybodol ei fod yn rhywbeth roedd angen ei wneud. Erbyn gorffen y diwrnod gwaith, yr un fath a glanhau y toiled, doedd y dasg o fynd i'r swyddfa ddim mor ddrwg go iawn ac y byddai yn ei ofni ar y dechrau.

Tri chwarter awr oedd hi'n gymryd i Rhian deithio o ddrws y tŷ i ddrws y swyddfa ond roedd yna rhyw ffenest foreol a fyddai yn golygu unai taith ddidrafferth i'r swyddfa neu traffig bondigrybwyll. Pe byddai yn gadael y tŷ am 7:40 byddai popeth yn iawn, ond 7:44, wel llanast llwyr. Bu iddi adael y tŷ yn brydlon y bore hwnnw, er y drafodaeth gyda Dot, felly o leiaf roedd mewn hwyliau go lew wrth gerdded at y brif fynedfa.

Doedd hi brin wedi cael amser i dynnu ei chot oddi amdani pan glywodd glochdar tair o'i chydweithwyr. Roeddynt yn trafod pwnc oedd yn eu tyb nhw yn hynod, hynod bwysig ... doedd o ddim go iawn.

Roedd Catrin, erbyn deall, wedi tynnu llun arbennig y diwrnod blaenorol. Llun a oedd o'r sŵn oedd yn cael ei wneud y bore hwnnw yn mynd i ennill gwobr mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth.

"Roedd y golau yn dod trwy'r ffenestr fel rhyw hud a lledrith" meddai Catrin yn lled uchel "roedd yn taro rhyw lafn perffaith. Mae'r llun ohona i yn camu trwy wewyr cwmwl y pelydrau haul yn ogoneddus"

Roedd Elin a Sara yn amneidio yn garedig.

Aeth Catrin yn ei blaen, "Roedd Mark a finnau newydd orffen ein swper a thwtio y gegin. Pan wnes i fynd trwadd am y stafell fyw roedd y golau mor arbennig, roedd rhaid cael llun. De chi'n gwybod fel mae hi genod"

Pasiodd Catrin ei ffôn bach i'r lleill weld y campwaith.

"Iesgob, ti'n edrych yn smart i feddwl eich bod yn barod i ymlacio min nos" meddai Sara yn grafog, cyn i Catrin daro yn ôl yr un mor grafog "wel, mae'n partneriaid yn haeddu rhywun yn gwneud ymdrech i gadw'r sbarc yn fyw yn tyden"

Trïodd Elin droi destun y sgwrs cyn i'r ieir ddechrau pigo chwaneg y bore hwnnw "A faint o ymatebion ges di i'r llun ar y gram felly Catrin?"

"Dwi ddim wedi edrych yn iawn" tarodd Catrin yn gyflym "dim llun i eraill oedd o wrth gwrs, ac roedd gynna i un neu ddau o bethau i'w cyflawni neithiwr wedi swper. Roedd hi yn tynnu at hanner nos dwi'n siŵr cyn i mi allu uwchlwytho y llun"

"I dorri stori hir yn fyr Elin" daeth rhyw rwnach o ochr arall yr ystafell "fedrai dybio mai dim llawer o ymatebion ydi'r ateb i dy gwestiwn". Rhys oedd ffynhonnell y sylw. Doedd o heb gael bore di drafferth yn amlwg gan iddo ychwanegu "Ti'n siŵr mai dim angen llunau chwaneg ar y tŷ y dylet ti fod wedi ei wneud Catrin os oedd yr haul yn gwneud i'r llwch acw ymddangos fel cwmwl?"

Ysgwydodd Catrin, Elin a Sara eu pennau i'w gyfeiriad, ond a dweud y gwir doedd Rhys ond yn dweud yn allanol beth roedd gweddiill criw y swyddfa yn ei feddwl - sef caewch ei cegau wir yr. Bu i amryw fel Rhian ei chael hi'n anodd guddio gwên. Un da ydi Rhys.

Aeth y bore rhagddo yn ddigon di ffws a tharodd Rhian ar un o'i chydweithwyr Alwyn yn y gegin amser cinio.

"Dwi'n siŵr nad ydi cinio heddiw o'r un safon a beth gefais di a Mari yng Ngwesty'r Hafan" meddai Rhian yn garedig "dwi'n genfigennus iawn eich bod wedi llwyddo i gael bwrdd yno."

Er fod Alwyn yn addoli Mari ei wraig, eglurodd nad oedd mor hoff o orfod aros iddi dynnu llun ar ôl llun o'u platiau cyn iddo gael cychwyn bwyta. Mae'n debyg fod cysgod ar un, gormod o olau ar un arall. Dim ond un llun o bob cwrs roedd Rhian wedi ei weld ar instagram ond mae'n debyg fod ambell i lun wedi ei dynnu i baratoi y cofnod o'r noson arbennig.

Wrth i Rhian ei throi hi am adre y noson honno, doedd dydd Mawrth heb fod mor ddrwg a hynny. Cafodd ei chyfarfarch wrth agor y drws gan Dot yn mewian ei bod hi'n amser bwyd gan hofran o gwmpas ei choesau yn mynnu sylw. Dim ond hi a Dot sydd yn byw yn Rhif 37 erbyn hyn. Roedd hi'n bedwar mis ers i Jac adael.

Bu Rhian a Jac yn cyd-fyw am dair blynedd ac yn canlyn am dros ddwy flynedd cyn hynny, ond pan fu iddynt eistedd i gael swper y noson honno dros benwythnos Gŵyl y Banc, cytunodd y ddau nad oedd pwynt cario mlaen fel oeddynt. Er nad oeddynt yn ffraeo doedden nhw ddim yn cyd dynnu chwaith.

"De chi am ddal i fod yn ffrindiau" meddai un o'r criw wrthi, y nos Sadwrn wedi'r gwahanu. Roedd y criw wedi ei llusgo i'r dafarn leol "i'w chefnogi", medde nhw. Er roedd Rhian yn gwybod mae eisiau cael y manylion bach oedden nhw a dweud y gwir. Hel straes ynte.

"Wna i ddim trio ei faglu ar y stryd os dio'n pasio" atebodd Rhian yn wamal "ond na, dwi ddim yn ein gweld yn aros yn ffrindiau – dyna pam ein bod yn gwahanu, de ni jyst ddim o'r un anian a dweud y gwir"

Roedd ffrindiau Rhian wedi synnu gyda sydynrwydd y gwahanu. Doedden nhw ddim wedi deall nad oedd pethe wedi bod yn fêl i gyd ers amser yn rhif 37. Ond onid fel yna yden ni i gyd rhywsut? Mae gennym i gyd rhyw bersona cyhoeddus, ond o grafu y wyneb, nid yw popeth fel mae rhywun yn tybio ar yr olwg gyntaf.

Pan ddaeth ei pherthynas â Jac i ben roedd yn gyfnod reit chwithig. Ei ffrindiau yn bod yn rhyw led ofalus o beth oeddynt yn ei ddweud ar y cychwyn, ond o dipyn i beth aeth cythrwfl Rhian yn hen hanes i eraill er ei fod yn parhau yn rhan mawr o'i bywyd hi. Does gan pawb ei bywydau ei hunain ac mae cylchoedd pawb yn parhau ar eu hechel unigol.

Wedi sortio Dot a hwylio swper i hi ei hun roedd yn amser setlo am noson arall. Byddai Rhian yn trio gadael ei ffôn bach yn y gegin min nos fel nad oedd rhy gyfleus i bipian arno. Trio ond nid yn llwyddo yn aml, gan y deuai rhyw neges i'w thynnu i edrych ar y sgrin bach – fel heno.

Wrth sgrolio drwy rhai o'r straeon a'r cipluniau gwelodd gofnod o Jen a'i theulu yn mwynhau pryd o fwyd mewn rhyw dŷ tafarn. #blydilyfli oedd yr ysgrifen lliwgar yn cyd-fynd gyda'r llun. Roedd Jen yn mynd allan i fwyta o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd hi a'r teulu yn gloddesta yn gyson. Ond eto, oedd pob pryd bwyd mor lyfli a hynny? Sgersli bilif.

Wrth barhau i sgrolio, doedd Rhian ddim yn deall yn aml iawn sut oedd rhai pobl yn cael amser i "hashnod" gwireddu breuddwydion fel roedd y lluniau yn awgrymu.

Pan fyddai Rhian yn edrych trwy'r ffenestr byddai yn gweld niwl mynydd neu hen law gwlyb ac eisiau cau'r llenni unwaith yn rhagor. Sut oedd rhai o'i ffrindiau felly yn llwyddo i greu cymaint o atgofion mewn tywydd braf yn yr un dref? Rhaid eu bod hwy yn byw mewn rhyw feicrosystem gwahanol iddi hi.

Er iddi dwt twtio sylwadau Elin, Catrin a Sara y bore hwnnw, roedd Rhian yn hoffi sbecian ar fywydau eraill ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn dilyn ambell un o'r dylanwadwyr. Pobl oedd â mwy o ymatebion i'w straeon na Catrin druan.

Dweud lot ac eto dweud dim byd mae'r dylanwadwyr yn aml iawn, ond mae gan rhywun rhyw flys i gael cip dyddiol ar eu sylwadau. O am gael dim ond llwy de o'u hunan hyder. Mae rhai ohonynt yn ceisio gwneud i wagu bin y gegin swno'n ddiddorol. A does dim ots os yw'r lluniau neu'r clipiau fideos wedi ei tynnu am chwech y bore neu unarddeg yr hwyr mae pob blewyn yn ei le. A'u hegri nhw wedyn, mae'r lefel sŵn yn dueddol o fod yn uchel a thempo cyflym i'r sgwrs. Mae rhywun eisiau deud "ssh" wrthynt yn aml iawn!!

Pam fod rhai mor awyddus a chyfforddus i fyw eu bywydau mor gyhoeddus.

Roedd Dot yn rhyw dawel chwyrnu ar y sofffa a wnaeth hi ddim hyd yn oed symud wrth i Rhian eistedd yn ôl wrth ei hochr wedi bod yn nol paned. Agorodd Rhian yr app instagram drachefn.

Sgroliodd ei bawd dros broffiliau ei ffrindiau. Angharad yn gwenu fel giât gyda chriw o ffrindiau mewn rhyw dafarn brysur yng Nghaerdydd. Llinos a'i theulu yn mwynhau yr haul yn Sbaen. Pawb gyda lliw haul bendigedig wrth iddynt fwynhau hufen ia blasus. A Dafydd, oedd wrth ei fodd yn cael sylw o flaen camera yn gwneud llygaid llo bach ar ei ddyweddi Alys wrth gerdded ar hyd strydoedd ym Mhortiwal.

Wrth barhau i sgrolio, ochneidia Rhian yn uchel.

Ai cofnod o ddigwyddiadau penodol neu ffordd o gysylltu yw cyfryngau cymdeithasol? Tybed ydi o yna i rywun gael teimlo'n well yn nhw ei hunain o gael ymateb eraill. Ydi popeth go iawn yn "berffaith" fel mae'r sylwadau bach yn honni?

Cododd Dot ei chlust, i weld os oedd Rhian am ddweud chwaneg wrthi. Ni ddaeth sylw arall a setlodd i chwyrnu drachefn. Un dda am wrando oedd Dot, er doedd hi ddim yn un cystal a hynny am rododi cyngor!

Gwena Rhian yn dawel wrth weld fod Dafydd wedi cynnwys llun o "avocado ar sourdough" yng nghanol y lluniau gwyliau. Ia go iawn, Dafydd sydd wrth ei fodd yn bwyta cibab seimllyd ar ddiwedd noson allan. Dafydd sy'n wfftio pobl am fwyta pethau ffasiynol – mae o wedi ei hudo gan eraill mae'n rhaid!

Oeda Rhian am eiliad pan sylwa ar lun un arall o'r criw estynedig yn gwenu yn braf ar ei gwyliau. Mae'r nodyn bach sydd gyda'r llun yn nodi hapusrwydd ond cofia Rhian y drafodaeth honno gyda Mared rhyw fis ynghynt - y dagrau oedd yn cronni wrth iddi gwestiynu ei hun.

Wrth barhau i sgrolio trwy'r lluniau, edrycha Rhian ar ei phroffil ei hun ar instagram a sylwa ar lun o ddechrau'r flwyddyn lle bu hi a Jac yn gwyllo sioe yn y theatr leol. #Nosonwych oedd Rhian wedi ei gynnwys fel nodyn i gyd-fynd â'r llun. Oedd, roedd y sioe wedi bod yn wych ond yr hyn a gofiai Rhian

fwyaf o'r noson honno oedd fod Jac wedi mynd ar ei nerfau yn gwneud sŵn gyda phapur fferins yn ystod y perfformiad tra'n gwingo fel rhyw gynrhonyn aflonydd yn ei sedd.

Wrth dwtio y gegin cyn ei throi am y cae sgwâr, cofia Rhian am sgwrs digon ffwrdd a hi rhyngddi a Sian ei chwaer yr wythnos cynt. Nododd Sian pa mor falch oedd hi nad oedd cyfryngau cymdeithasol yn bodoli pan oedd hi a'r criw yn y coleg. I'w chwaer Sian, camera ffilm fyddai'n cofnodi noson allan a wedyn byddai rhaid aros i gael y waled luniau o'r siop ddyblygu. Siâp ceg od mewn un llun ac mewn llun arall un o'r criw ar ganol codi heb fod yn or osgeiddig. Roedd y cipluniau bach doniol wedi eu cynnwys yn albwm y cyfnod. Y lluniau rheiny sy'n dweud stori heb ddefnyddio geiriau.

Wrth feddwl am albwm lluniau Sian o gymharu a phroffil instagram rhai o'i ffrindiau dechreu Rhian gwestiynu ei hun. Tybed os mai perfformiad ydi instagram i rai yn hytrach na chofnod. Yden nhw yn trio llunio fersiwn o nhw ei hunain sydd o dan reolaeth a chael teimlo y boddhad hwnnw o gael eu gweld a chael rhyw sylw bach.

Fedr Rhian ddim ateb y cwestiwn wrth gwrs. Er fod y lluniau rheiny i'w gweld gan eraill dim ond haenen allanol y nionyn a welwn. Dim ond y postiwr sy'n gwybod y stori gyflawn tu ôl i'r llun.

Wrth setlo i'r gwely y noson honno, agorodd drôr y cwpwrdd bach yn ei hymyl ac estyn am yr unig beth na fyddai yn ei beirniadu. Ei dyddiadur. Doedd dim angen ffiltar ar gyfer hwnnw. Roedd Rhian yn gallu cofnodi ei meddyliau heb ddal yn ôl. Y dryswch, y balchder, y cenfigen a'r poen hwnnw doedd hi weithiau ddim yn gallu rhoi ei bys arno. O bryd i'w gilydd byddai yn taro rhyw gip yn ôl ar ei meddyliau. Doedd yna ddim trefn na ffurf i'w nodiadau ac roedd y cofnod yn aml fel rhyw ganclwm. Ond hi oedd o a hi oedd bia fo.

Doedd neb yn rhoi bawd i fyny, na chalon i ddangos eu cydnabyddiaeth, a doedd na ddim ymatebion ysgrifenedig. Ond rhwng clawr y dyddiadur bach roedd yr inc ar bapur yn gofnod a gwedd o'i dealltwriaeth bersonol.

Dyma ei noddfa. Ei hafan ddirgel lle mae sŵn y byd yn diflannu a'i chraidd yn cael bod yn destun ei sioe bersonol. Mewn byd lle mae popeth yn berffaith ar instagram, a phob sgrôl yn ei hatgoffa o beth mae eraill wedi eu cyflawni, mae ei dyddiadur yn rhoi rhyw ddihangfa iddi. Dyma rhywle lle gall fwrw ei bol heb deimlo pwysau sylwadau eraill. A hithau yn aml yn teimlo yn ddarostyngedig mae'r dyddiadur yn le iddi fod yn agored. Yma mae'n dod o hyd i eglurder a chael threfn ar ei meddyliau. Gall fwynhau bod yn hi ei hun a bod yn onest heb deimlo'r angen i guddio unrhyw nam bychan.

Mewn byd lle mae pawb eisiau sylw, i Rhian mae'r gallu sibrwd â hi ei hun yn bwysicach na dim arall. Mae y llais personol hwnnw yn gryfach nag unrhyw gydnabyddiaeth o'i stori instagram.

Mewn byd lle bellach nad oes fawr o breifatrwydd, dyma ei pharadwys.

Dyma Rhian.

FfugEnw:- Helygen